© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA
CYMRU

# Teganau Traddodiadol o Gymru



© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru

# Cwpan a Phêl



## Hanes

*Roedd y gêm Cwpan a Phêl yn boblogaidd iawn yn Ffrainc yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yr enw am y gêm oedd 'Bilboquet'. Datblygodd i fod yn ffasiynol iawn yn ystod teyrnasiad y Frenhines Elisabeth 1 pan ddechreuwyd ei alw'n Cwpan a Phêl. Yn ôl y sôn, roedd hyd yn oed y Frenhines a'u gwr llys yn mwynhau chwarae gyda'r tegan hwn!*

© Amgueddfa Cymru

Teganau Traddodiadol o Gymru


# Cwpan a Phêl



## Gwneud cwpan a phêl

*Byddwch angen:*

- *Pot iogwrt gwag*
- *Darn o gordyn (tua 70cm o hyd)*
- *Darn o ffoil*







© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru

# Cwpan a Phêl



## Gwneud cwpan a phêl

- Clymwch gwlwm yn un pen o'r cordyn.
- Gwnewch dwll bach yng ngwaelod y pot iogwrt.
- Bwydwch y cordyn drwy'r twll o'r tu mewn i'r pot iogwrt.
- Gosodwch ben arall y cordyn ar y ffoil. Gwasgwch y ffoil i wneud pêl.
- Nawr taflwch y bêl arian gan geisio'i dal yn y cwpan!!

© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru

# Doli Peg



## Hanes

*Daw'r traddodiad o wneud doliau peg o begiau dillad pren o gyfnod pan nad oedd gan bobl lawer o arian i'w wario ar deganau. Pan stopiwyd cynhyrchu teganau yn ystod yr Ail Ryfel Byd, byddai plant yn gwneud eu teganau eu hunain gan ddefnyddio pethau y byddent yn eu canfod yn ac o gwmpas eu cartrefi.*

© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru

# Doli Peg



## Gwneud doli peg

*Byddwch angen:*

- *Peg doli pren*
- *Glanhawr pibau*
- *Darnau o ddefnydd a gwlân*
- *Siswrn, glud, pen ffelt*



© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru

# Doli Peg



## Gwneud doli peg

- Gwisgwch y peg doli fel yr ydych chi'n dewis.
- Weindiwch ganol y glanhawr pibau o amgylch y darn sydd fymryn o dan wddf y peg, gan ei dwistio'n gadarn ar y cefn. Lledaenwch bob pen – y breichiau – i'r ochrau.
- Plygwch y pwyntiau oddi tano i wneud 'dwylo'.
- Gludiwch y gwlân i'r pen.
- Tynnwch lun wyneb arno.

© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru

# Ceilys



## Hanes

*Gelwir Ceilys weithiau'n Bowlio Deg ac weithiau'n Bowlio Naw er bod deg ohonynt bob amser! Gosodir y ceilys ar ffurf triongl. Yn gyntaf gosodir pedair ceilysen mewn llinell, tair yn y bylchau o'u blaen, dau yn y bylchau o'u blaen nhw, gan orffen ag un. Nid oedd y plant yn defnyddio pêl gron neu sffêr i ddymchwel y ceilys bob tro. Roedd yn dipyn mwy o her defnyddio siâp silindr a elwid yn 'gaws'.*

© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru

# Ceilys




## **Gwneud ceilys**

*Byddwch angen:*

- *Poteli dŵr plastig gwag â thopiau sgriw.*
- *Tywod*
- *Paent neu bennau felt*







© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru

# Ceilys



## Gwneud ceilys


- Peintiwch neu lliwiwch y label ar y poteli.
- Rhifwch nhw o un i ddeg. Rhowch dywod yn y poteli nes bod pob un yn hanner llawn.
- Sgriwiwch y topiau yn dynn.
- Gosodwch nhw mewn triongl gan ddechrau gyda rhif un yn y blaen.
- Nawr penderfynwch os hoffech chi eu dymchwel â phêl (sffêr) neu 'gaws' (silindr).

© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru

# Coits



## Hanes


*Y discws Groegaidd neu Rufeinig yw tarddiad coits. Disg solet, fflat o garreg neu fetel oedd y discws, ac fe'i teflid i brofi cryfder neu sgil. Cylchoedd o bren, metel, haearn neu ifori yw Coits, a daflwyd o amgylch pin neu rif.*

© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru

# Coits



## Hanes

*Yn draddodiadol byddai dynion y pentref yn herio dynion y pentref nesaf i ornest coits. Codwyd postyn mawr a byddai'r dynion yn sefyll o'i amgylch i daflu coits gan obeithio y byddent yn glanio ar y postyn.*

© Amgueddfa Cymru


AMGUEDDFA CYMRU





## Gwneud gem Coits

*Byddwch angen:*

- *Potel sebon golchi llestri blastig gwag (crwn)*
- *Peg ddoli*
- *Clai*
- *Siswrn*



© Amgueddfa Cymru




## Gwneud gem Coits

- *Torrwch gylchoedd tua 2cm o led o'r botel sebon golchi llestri (efallai bydd angen i chi ofyn i oedolyn am help).*
- *Lluniwch y clai yn siâp ciwb.*
- *Gwasgwch y peg doli i mewn i'r ciwb.*
- *Sefwch yn ôl i daflu'ch coits cartref dros y ddoli peg!*

© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU




## Hanes

*Mae'n debyg bod plant wedi bod yn chwarae â thopiau ers bod moch y coed yn tyfu ar goed pinwydd, a cherrig siâp conau yn gorwedd ar lawr. Weithiau defnyddid carrai neu lasys sgidiau ar gyfer y chwip a hoeliwyd hoelen o esgid tad-cu i'r top i'w wneud yn fwy cadarn a'i wneud i droelli'n well.*

© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru

# Chwip a Thop



## Hanes

*Byddai plant yn mwynhau darlunio patrymau hardd mewn sialc ar y top, i greu effaith tebyg i Galeidosgop wrth ei fod yn troi. Yn ôl rhai rheolau, dylid chwarae â'r chwip a thop yn y Gwanwyn yn unig (Mawrth ac Ebrill). O dorri'r rheol hon 'byddech yn cael eich 'smygio' h.y. byddai'r chwip a'r top yn cael eu cymryd ymaith!*

© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru


# Chwip a Thop



## Gwneud top

*Byddwch angen:*

- *Darnau o gerdyn trwchus*
- *Clawr crwn e.e. o bot jam bach*
- *Pren coctel neu fatsien (gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i oedolyn i'ch helpu)*
- *pensil, pennau ffelt, siswrn*



© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

Teganau Traddodiadol o Gymru

# Chwip a Thop



## Gwneud top

- Gosodwch y clawr crwn ar ddarn o gerdyn.
- Tynnwch linell o amgylch y clawr i wneud siâp cylch.
- Torrwch y cylch allan o'r cerdyn.
- Addurnwch y cylch fel yr ydych chi'n dewis.
- Gwnewch dwll ynghanol y cylch. Gwthiwch y pren coctel/ matsien drwy'r twll.
- Chwiliwch am arwynebedd llyfn a throwch eich top!

AMGUEDDFA CYMRU

Mae rhagor o adnoddau adar [dudalennau Addysg gwefan Amgueddfa Cymru].

**amgueddfa.cymru/dysgu/**



Mewn gweithdai personol neu rithwir mae popeth am deganau traddodiadol ar gael. Cliciwch ar y ddelwedd i ddarganfod mwy.